

Rhif: WG30280



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymateb

Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
2016

Gorffennaf 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 2
Cefndir	Tudalen 2
Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad	Tudalennau 3-5
Y camau nesaf	Tudalen 5
Atodiad A - Rhestr yr ymatebwyr	Tudalen 6

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd yr *Information Governance Alliance (IGA)* fersiwn newydd, wedi'i diweddarau, o God Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cychwynnodd ymgynghoriad ar 17 Tachwedd 2016, yn gofyn am farn ar gynnwys y Cod a gweithredu'r Cod yng Nghymru yn y dyfodol, a daeth i ben ar 9 Chwefror 2017.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ar:

<https://consultations.gov.wales/consultations/records-management-code-practice-health-and-social-care-2016>

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn ac mae'n esbonio'r camau nesaf sydd i'w cymryd.

Gyda'i gilydd, derbyniwyd 13 ymateb ac mae rhestr o'r ymatebwyr ynghlwm yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion yn dechrau ar dudalen 3 y ddogfen hon.

Cefndir

Ar ddiwedd 2014, gofynnodd Adran Iechyd Llywodraeth y DU i'r IGA arwain adolygiad o God Ymarfer Rheoli Cofnodion y GIG. Adolygwyd y Cod ddiwethaf cyn hynny yn 2006, gyda chyfle i Gymru gyfrannu. Cyhoeddwyd rhai mân ddiweddariadau pellach yn 2009.

Cyhoeddwyd fersiwn newydd, wedi'i diweddarau, o'r Cod yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2016.

Canllaw yw'r Cod hwn i'w ddefnyddio wrth reoli cofnodion ac mae'n berthnasol i gyrrff sy'n gweithio o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Lloegr, neu dan gontract iddynt.

Seiliwyd y Cod ar ofynion cyfreithiol presennol ac arferion da proffesiynol. Bydd yn gymorth i sefydliadau weithredu argymhellion Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford ynghylch rheoli cofnodion a thryloywder.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli'r canllawiau blaenorol a restrir isod:

- Rheoli Cofnodion: Cod Ymarfer y GIG: Rhannau 1 a 2: 2006, diwygiwyd 2009
- HSC 1999/053 – *For the Record*
- HSC 1998/217 – *Preservation, Retention and Destruction of GP General Medical Services Records Relating to Patients (Replacement for FHSL (94)(30))*
- HSC 1998/153 – *Using Electronic Patient Records in Hospitals: Legal Requirements and Good Practice.*

Mae'r Cod hwn yn rhan o gyfres o ganllawiau rheoli gwybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd sy'n cynnwys Cyfrinachedd: Cod Ymarfer y GIG; Rheoli Diogelwch Gwybodaeth: Cod Ymarfer y GIG.

Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

C1 – Ydy diben y cod yn glir?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei dicio
Cyfanswm	5	2	3	0	3

Crynodeb

O'r rheiny a fynegodd farn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig. Roedd 70% naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig. Roedd 30% yn tueddu i anghytuno ac nid oedd dim ymatebwyr yn anghytuno.

Gwnaeth yr ymatebwyr oedd wedi cofnodi 'tueddu i gytuno' y sylw bod y Cod, er ei fod wedi ei fwriadu i gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yn canolbwyntio ar iechyd gydag ychydig neu ddim ystyriaeth o ofal cymdeithasol. Roedd un o'r ymatebwyr, na wnaeth dicio yr un o'r atebion, hefyd yn cytuno â hyn yn ei sylwadau.

C2 – Ydy cynnwys y cod yn cwmpasu'r meysydd disgwylidig o arbenigeddau Rheoli Cofnodion o fewn iechyd a gofal cymdeithasol?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei dicio
Cyfanswm	5	2	2	1	3

O'r rheiny a fynegodd farn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig. Roedd 70% naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig, gyda'r 30% oedd yn weddill yn cofnodi eu bod yn tueddu i anghytuno neu yn anghytuno.

Roedd y sylwadau gan atebwyr yn cynnwys:

- Dylid diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu GIG Cymru yn hytrach na chanolbwyntio ar Loegr.
- Mae angen cyfeirio mwy at ofal cymdeithasol.
- Dylid cyfeirio at GPDR.
- Does dim cyfeiriad at gofnodion a rennir, h.y. WCCIS.

C3 – Ydy'r cod yn well na'r canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (WHC (2000) 71) neu ganllawiau Gwasanaeth fel llawlyfr Gwarcheidwaid Caldicott ar gyfer Cymru?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei dicio
Cyfanswm	3	2	2	0	6

O'r rheiny a fynegodd farn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig. Roedd 71% naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig, gyda'r 29% oedd yn weddill yn cofnodi eu bod yn tueddu i anghytuno neu yn anghytuno. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr heb dicio dewis ond wedi rhoi rhai sylwadau.

Nododd ymatebwyr mai ychydig neu ddim cyfeiriad oedd yma eto at ofal cymdeithasol.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr angen am arweiniad pellach.

C4a – Ydy'r Cod yn helpu sefydliadau i ddiffinio'u gofynion yn well o ran cadw a dinistrio cofnodion papur ac electronig?

	Ydy	Nac ydy	Heb ei ateb / rhoi sylw'n unig
Cyfanswm	5	3	5

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn hapus bod y Cod yn rhoi cymorth i sefydliadau.

Nododd ymatebwyr nad yw'r Cod yn gymorth i awdurdodau lleol yn eu gwaith o reoli cofnodion gofal cymdeithasol.

Rhoddodd rhai ymatebwyr awgrymiadau defnyddiol sut y gellid gwella hyn.

C4b - Ydy'r Cod yn gwrth-ddweud polisi presennol sefydliad ac yn effeithio ar brosesau busnes cyfredol?

	Ydy	Nac ydy	Heb ei ateb / rhoi sylw'n unig
Cyfanswm	2	4	7

O'r rheiny a gofnododd farn, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd y Cod yn gwrth-ddweud polisi sefydliadol presennol a/neu'n effeithio ar brosesau busnes cyfredol.

Nododd ymatebwyr y cyfnodau cadw gwahanol ar gyfer cofnodion gofal cymdeithasol ac nad oedd y rhain wedi eu hystyried yn y Cod. Roeddent hefyd yn nodi gwahaniaeth rhwng polisi lleol a'r Cod.

Nododd ymatebwyr rai gwallau mewn terminoleg yn y Cod a rhai problemau ynghylch cyfnodau cadw.

C5 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi:

Roedd y sylwadau gan atebwyr yn cynnwys:

- Mae'r derminoleg yn y Cod yn wahanol i'r hyn sydd yn y rhestr gadw a dinistrio.
- A ddylid datblygu fersiwn o'r Cod sy'n fwy perthnasol i Gymru, yn hytrach na mabwysiadu fersiwn Lloegr?
- Ar hyn o bryd, nid yw Gofal Cymdeithasol o fewn cwmpas y ddogfen hon. A fydd yn cael ei datblygu ar gyfer GIG Cymru yn unig?
- Mae angen eglurder pellach ynghylch cadw rhai is-setiau o gofnodion.
- Sut bydd y GDPR yn cael ei adlewyrchu?
- Mae angen i'r Cod fod yn benodol i GIG Cymru, heb gyfeiriadau at ganllawiau, sefydliadau, cyfraith neu drefniadau GIG Lloegr, onid ydynt yn berthnasol i Gymru hefyd.
- Byddai'n ddefnyddiol i'r Cod ymdrin â'r gofynion i sefydliadau adrodd am achosion o dorri diogelwch data.
- Byddai'n fuddiol i'r Cod ddangos y manteision o rannu data ar gyfer y person (yng nghanol y gofal) ac wedyn dilyn gyda rhai o'r peryglon y mae angen eu hystyried.

C6 - Hoffem glywed eich barn ar yr effaith y byddai Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei chael ar y Gymraeg,

Roedd y sylwadau gan atebwyr yn cynnwys:

- Dylai'r ddogfen gyfeirio at y Gymraeg, e.e. adran ar bwysigrwydd nodi dewis iaith claf o fewn y cofnodion.
- Dylai'r Cod fod yn eglur ynghylch y protocol ar gyfer cadw cofnodion claf yn Saesneg neu Gymraeg.
- Dylid cyhoeddi'r Cod yn ddwyieithog a dylai gynnwys adran ar ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.
- Dylai cofnodi angen iaith gael ei gynnwys yn Nhabl 1 - safonau cadw cofnodion meddygol AoMRC (Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru).

**C7 - Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Cod yn eich barn chi er mwyn
i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl
ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a
ii) peidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**

Roedd y sylwadau gan atebwyr yn cynnwys:

- Tudalen 9, Tabl 1 - dylai safonau cadw cofnodion meddygol AoMRC gynnwys yr angen i'r holl gofnodion gael eu hysgrifennu yn Saesneg er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Gellir cyfieithu'r cofnodion i'r Gymraeg os bydd y claf yn gofyn.
- Tudalen 18, Tabl 3 - Dylai elfennau metadata gael iaith fel elfen fandadol.
- Tudalen 31 - cofnodion teuluol a Thudalen 35 - cofnodion staff. Dylai'r rhain gofnodi anghenion iaith.
- Mae angen i'r Cod fod yn eglur ynghylch y protocol ar gyfer cadw cofnodion claf yn Saesneg neu yn Gymraeg.

Y Camau Nesaf

Er bod yr atebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r Cod ar y cyfan, mae nifer o faterion wedi cael eu codi, a'r mwyaf o'r rhain yw nad yw'r Cod yn adlewyrchu Gofal Cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru fydd yn rhoi gwybodaeth i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar weithredu'r Cod yng Nghymru. Bydd y Cylchlythyr hwn yn cymryd y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr i ystyriaeth.

Atodiad A - Rhestr yr ymatebwyr

Na	Cyfrinachol	Enw	Sefydliad
1	N	Helen Thomas	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2	N	Claire Parsons	Bwrdd Iechyd Cwm Taf
3	N	Crash Wigley	Stonewall Cymru
4	N	Cynthia Henderson	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
5	N	Helen Dolman	Bwrdd Iechyd Athrofaol Powys
6	N	Jane Fenton-May	Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)
7	N	Joanne Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
8	N	Heather Giles	Llywodraeth Cymru
9	N	Karen Richardson	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
10	N	Lisa Turnball	Y Coleg Nyrso Brenhinol.
11	N	Nicola Phillips	Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
12	Y		
13	N	Wendy Hardman	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr